OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1729 (Cy.163)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *4 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *19 Gorffennaf 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 1(5) o Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

### Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 19 Gorffennaf 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 1970" yw Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970.

### Dynodi cyrff cyhoeddus

**2.** Bydd y personau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, gan eu bod yn bersonau y mae'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, yn gyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf 1970.

(**1**) 1970 p.39.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

4 Gorffennaf 2002

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**3**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

**Erthygl 2**

### Cyrff Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyngor Gofal Cymru

Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 1(5) o Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 ("Deddf 1970") yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu'n gorff cyhoeddus, at ddibenion Deddf 1970, berson neu ddisgrifiad o bersonau y mae'n ymddangos eu bod yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Mae'r pŵ er hwn yn arferadwy bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Gofal Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn gyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf 1970.